



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl swydd:	Tiwtor Cyswllt yn y Gyfraith
Ysgol:	Ysgol Reoli Caerdydd
Lleoliad:	Campws Llandaf
Cyflog:	£47.08 y sesiwn, ynghyd ag 18% o dâl gwyliau

Disgrifiad Rôl

Mae Ysgol Reoli Caerdydd yn un o bum ysgol Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Wedi'i leoli yn ein cyfleuster o'r radd flaenaf ger calon y brifddinas rydym yn cynnig ystod eang o raglenni ar lefel israddedig ac ôl-raddedig. Mae'r Gyfraith yn rhan o'r Ysgol ac mae hon yn swydd allweddol a fydd yn cyfrannu at uchelgeisiau Cynllun Strategol y Brifysgol (Strategaeth 2030).

Mae'r Adran Busnes, Rheolaeth a'r Gyfraith yn cynnal sawl Rhaglen Gyfraith hynod lwyddiannus, megis LLB (Anrh), BA (Anrh) y Gyfraith a Throsedddeg, BA (Anrh) Cyfraith a Rheolaeth Busnes a llwybr Sylfaen mewn Astudiaethau Cyfreithiol. Yn 2024, agorwyd Clinig Cyfraith Entrepreneuriaidd CSM, lle mae myfyrwyr yn rhoi cyngor a chymorth cyfreithiol o dan oruchwyliaeth staff profiadol. Mae ein haddysgu yn pwysleisio datblygiad personol a sgiliau, gyda ffocws ar gyflogadwyedd. Ein nod yw gosod y gyfraith yn ei chyd-destun cymdeithasol-gyfreithiol er mwyn gwella dealltwriaeth o'i heffaith gymdeithasol a datblygu sgiliau dadansoddol, meddwl beirniadol a datrys problemau ar gyfer ein holl raddedigion.

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unigolion sydd â phrofiad o un neu fwy o'r meysydd canlynol:

- Ewyllysiau a chyfraith profeb
- Sgiliau cymhwysol mewn Eiriolaeth
- Cyfraith Gyfansoddiadol
- Cyfraith Weinyddol

Rydym hefyd yn awyddus i glywed gan unigolion sydd ag arbenigedd yn y meysydd ychwanegol canlynol:

- Cyfraith Camwedd
- Cyfraith Cwmnïau a Masnach
- Ieuenctid, Anghydraddoldeb a Throseddu
- Cyfraith Teulu
- Mynediad at Gyfiawnder

- Cosb a Chyfiawnder
- Sgiliau Cyfreithiol a Phroffesiynol

Sylwer bod ffi'r sesiwn yn cynnwys dyletswyddau addysgu a dyletswyddau cysylltiedig, h.y. awr y cyflenwi ynghyd ag un awr ar gyfer y dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r awr honno o gyflwyno gan gynnwys paratoi ac asesu.

Prif feysydd cyfrifoldeb

1. Cael a bod yn gyfarwydd â dogfennau'r cwrs perthnasol sy'n rhoi gwybodaeth sy'n gysylltiedig â nodau a gweithrediad y cwrs, gan gynnwys y maes llafur, dulliau asesu, dulliau addysgu a ffefrir, gwybodaeth sydd ei hangen gan fyfyrwyr, dyddiadau ac amserau'r cwrs, ac ati.
2. Cysylltu ag aelodau o dîm y rhaglen, fel y bo'n briodol, er mwyn deall gofynion, cydlynu cynlluniau a chymau gweinyddol ac i drafod newidiadau.
3. Paratoi deunydd cwrs effeithiol a fydd yn cyflawni nodau'r cwrs, gan gynnwys gwella'r profiad dysgu drwy ddull sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr.
4. Mynychu a chyflwyno sesiynau fel y cytunwyd arnynt, darlithio, arwain trafodaethau a darparu arweiniad a chynghor fel arall a hyrwyddo dysgu, yn ôl yr angen.
5. Paratoi a marcio, yn ôl yr angen, unrhyw waith ysgrifenedig cysylltiedig, gwaith stiwdio, gwaith dosbarth a phapurau arholi, o fewn y gweithdrefnau asesu priodol.
6. Rhoi adborth adeiladol ac amserol i fyfyrwyr ar eu cynnydd.
7. Cadw cofnodion asesu a phresenoldeb o'r fath ag sy'n ofynnol gan y Brifysgol.
8. Arsylwi amseroedd agor a chau dosbarth yn llym.
9. Sicrhau bod Cyfarwyddwr/Arweinydd y Rhaglen a'r dosbarth yn cael gwybod am eu habsenoldeb, lle na ellir osgoi hyn, cyn belled ymlaen llaw â phosibl.
10. Darparu, lle bo'n briodol, cynllun cwrs/gwaith, set o amcanion a rhestrau darllen i fyfyrwyr.
11. Mynychu cyfarfodydd, sesiynau sefydlu a datblygu yn ôl yr angen.

Hysbysiad Safonol

Darperir y canllawiau hyn i'ch helpu i gyflawni eich contract. Mae'r brifysgol yn sefydliad deinamig; felly efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Gwneir unrhyw newidiadau mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd. Ni fwriedir i'r Crynodeb o Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau fod yn rhestr gynhwysfawr o'r tasgau a gyflawnir. Mae tasgau technegol cysylltiedig eraill yn debygol o gael eu cyflawni yn unol â chyfarwyddyd y rheolwr llinell.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad a'u hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob cyflogai ddangos ei fod yn glynu wrth ein Cod Ymddygiad Proffesiynol. Dylai'r holl staff roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisiâu a gweithdrefnau Cydraddoldeb, Ariannol, Amgylcheddol a Chynaliadwyedd, Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd.



MANYLEB PERSON

Teitl swydd: Tiwtor Cyswllt yn y Gyfraith

Ysgol/Uned: Ysgol Reoli Caerdydd

* Allwedd

Ff - Ffurflen gais

C - Cyfweliad

C - Cyflwyniad

FFACTORAU	MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL	ASESWYD GAN		
		Ff*	C*	C*
Addysg a Chymwysterau (Hanfodol)	Gradd anrhydedd dda. Cymhwyster Meistr (LLM/MA/MRes) neu gymhwyster cyfatebol yn y Gyfraith neu Droseddoleg/Cyfiawnder Troseddol neu ddisgyblaeth gysylltiedig. Y gallu i ennill Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch, o fewn cyfnod o dair blynedd.	✓ ✓ ✓		
Addysg a Chymwysterau (Dymunol)	Cymhwyster lefel doethuriaeth. Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch. Aelodaeth o gorff proffesiynol.	✓ ✓ ✓		
Gwybodaeth (Hanfodol)	Lefel dda o wybodaeth sy'n berthnasol i'r pwnc a'r maes proffesiynol. Tystiolaeth o ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Dealltwriaeth gadarn o addysgeg.	✓ ✓	✓ ✓ ✓	
Sgiliau a Galluoedd sy'n ymwneud â rôl (Hanfodol)	Y gallu i ddylunio deunydd addysgu a dysgu. Y gallu i ddefnyddio dulliau asesu priodol. Y gallu i ymgymryd â dyletswyddau gweinyddol mewn modd cywir ac amserol. Y gallu i gynllunio llwythi gwaith.	✓ ✓ ✓	✓ ✓ ✓ ✓	

	Y gallu i nodi meysydd i'w gwella ac i ddefnyddio sgiliau menter a datrys problemau i wella perfformiad.			
Sgiliau a Phriodoleddau Personol (Hanfodol)	Y gallu i gyfathrebu a lledaenu syniadau cymhleth a chysyniadol mewn amrywiaeth o ffyrdd — cyflwyniadau, adroddiadau, deunyddiau dysgu. Y gallu i ddatblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol fel rhan o dîm proffesiynol. Profiad o addysgu	✓ ✓ ✓	 ✓ ✓	
Profiad wedi'i Dalu/heb dâl (Dymunol)	Profiad o addysgu mewn Addysg Uwch.	✓		
Gofynion Eraill (Hanfodol)	Y gallu i ddangos ymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, lechyd a Diogelwch, a Safonau Ansawdd.		✓	
Gofyniad Arall (Dymunol)				
Sgiliau Cymraeg Gwranddo Dymunol	C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg.	✓		
Sgiliau Cymraeg Darllen Dymunol	C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg.	✓		
Sgiliau Cymraeg Siarad Dymunol	C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg.	✓		
Sgiliau Cymraeg Ysgrifennu Dymunol	C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg.	✓		